

## Gweithiwr Iechyd Meddwl Profesiynol Cymeradwy

Cyfeirnod y swydd: AHOS00055W3HME

Lleoliad: Y Rhyl / Rhuthun

Cyflog: Gradd 12, £49,764 - £52,805 y flwyddyn

Oriau: 37 y wythnos

Contract: Parhaol

Mae Tîm Iechyd Meddwl Sir Ddinbych yn dymuno penodi Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy i ymuno â'r tîm iechyd meddwl newydd yn Sir Ddinbych.

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl yn darparu asesiadau a chefnogaeth i oedolion sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Mae'n hyrwyddo annibyniaeth a lles drwy waith partneriaeth a defnyddio dull sy'n seiliedig ar gryfderau gyda dinasyddion.

Mae swydd y Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy'n rhan greiddiol o'r tîm ehangach ac ar hyn o bryd, rydym yn gweithredu model 'canolbwynt' Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy. Mae gan 4 Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy llawn amser a'r Arweinydd lwyth achosion llawer iawn llai er mwyn gallu canolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Mae swydd y Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy'n cael ei gwerthfawrogi yn yr awdurdod a bydd ganddynt fynediad at gyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus i gynnal eu harferion.

Penodiad yn amodol ar Wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geir daon boddhaol.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd ar y swydd, ffoniwch Hayley Adams ar 01824 712382.

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd wag hon, gwnewch gais ar-lein trwy ein gwefan [www.sirddinbych.gov.uk](http://www.sirddinbych.gov.uk) Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01824 706100.

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

### Dyddiad Cau: 17 Chwefror 2025

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.

## Approved Mental Health Professional

Job reference: AHOS00055W3HME

Location: Rhyl / Ruthin

Salary: Grade 12, £49,764 - £52,805 per annum

Hours: 37 per week

Contract: Permanent

Denbighshire's Mental Health Team is seeking to appoint an Approved Mental Health Professional (AMHP) to join the newly formed mental health team in Denbighshire.

The Mental Health Team provide assessment and support to adults in receipt of secondary mental health services. Promoting independence and wellbeing through partnership working and utilising a strengths-based approach with citizens

The AMHP role forms a core part of the wider team and we are currently operating an AMHP 'hub' model, where 4 fulltime AMHPs and the AMHP lead, have significantly reduced case loads enabling a focus upon the statutory responsibilities of the Mental Health Act.

The AMHP role is a valued one across the authority and AMHP's will have access to ongoing training and development opportunities to maintain their practice.

Appointment subject to Disclosure & Barring Service Check and satisfactory references.

If you would like to discuss any aspect of the post, please call Hayley Adams on 01824 712382.

If you are interested in this vacancy, please apply on-line via the website [www.denbighshire.gov.uk](http://www.denbighshire.gov.uk). For alternative methods of applying please contact Customer Services on 01824 706101.

Candidates must complete our application form to be considered. We regret that we are unable to reply to all applications. If you have not received a reply within three weeks of the closing date, you must assume that you have not been short listed for interview.

### Closing Date: 17 February 2025

Denbighshire County Council is committed to Equal Opportunities and its Welsh Language Standards. We welcome applications in the Welsh Language and application forms received in the Welsh Language will not be treated less favourably than an application form submitted in English.

## CYNGOR SIR DDINBYCH SWYDD-DDISGRIFIAD

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (GIMPC)</b>
<b>Graddfa:</b>	<b>12</b>
<b>Gwasanaeth:</b>	<b>Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd</b>
<b>Maes Gwasanaeth:</b>	<b>Iechyd Meddwl</b>
<b>Yn atebol i:</b>	<b>Rheolwr Tîm</b>
<b>Cyfeirnod y Swydd / Dyddiad cyhoeddi:</b>	<b>04680 / Ionawr 2025</b>

### Pwrpas y Swydd

Mae'r Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy yn rôl sy'n unigryw yng nghyfraith y DU o ran yr awdurdod sydd ganddi i amddifadu unigolyn yn ffurfiol o'u rhyddid (sydd wedi'i gynnwys yn erthygl 5 y Ddeddf Hawliau Dynol) heb yr angen am wrandawriad llys. Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gosod y fframwaith cyfreithiol ble gall pobl gael eu gorfodi i gael eu derbyn a'u cadw mewn ysbytai seiciatrig ac mae gan y GIMPC rôl arweiniol i'w chwarae fel prif benderfynwr wrth wneud ei ddyletswyddau.

Mae'r rôl Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (GIMPC) yn gymhleth. Mae hefyd yn unigryw ymhlith tasgau gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl eraill oherwydd mae'r GIMPC yn gweithredu'n llwyr fel gweithiwr proffesiynol annibynnol wrth wneud ei ddyletswyddau ar ran yr Awdurdod Lleol yn hytrach na bod yn asiant i'w gyflogwr.

Ni all rheolwr ddweud wrth GIMPC bod angen iddynt gadw unigolyn yn ffurfiol dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Yr unig beth y gellir ei wneud yw gofyn iddynt ystyried cais am asesiad dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a dod i'w casgliad eu hunain gan ystyried holl amgylchiadau'r achos.

Bydd y GIMPC wedi cwblhau hyfforddiant lefel uwch mewn iechyd meddwl, yn arbennig y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cyfrifoldebau cysylltiedig. Mae rôl y GIMPC felly'n darparu ffynhonnell wybodaeth arbenigol i weithwyr proffesiynol a thimau amlasiantaeth.

### Prif Gyfrifoldebau

Ymgymryd â chyfrifoldeb statudol i ystyried pob cais am asesiadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chydlynu proses yr asesiadau hynny; ystyried yr angen am dderbyn pobl i'r ysbyty a mynd ar ôl dulliau ar wahân i orfodaeth (h.y. y dull lleiaf cyfyngol) lle bo modd.

Dod ag agwedd gymdeithasol i broses asesiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gan ddefnyddio sgiliau proffesiynol a gwybodaeth lefel uchel i ymdrin â materion dadleuol, a herio uwch weithwyr proffesiynol iechyd a'r rhai sydd efallai yn arbenigwyr yn eu maes.

Gweithio mewn partneriaeth gydag ystod o weithwyr proffesiynol eraill ar lefelau uwch ac arbenigol, ond penderfynu'n annibynnol ac yn awtonomaidd a yw derbyn rhywun yn ffurfiol i'r ysbyty'n angenrheidiol ac yn briodol.

Lle bo hynny'n berthnasol, bod yn gyfrifol am reoli atgyfeiriadau mewn sefyllfaoedd cymhleth, gan gynnwys achosion diogelu plant ac oedolion ac asesu, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso ymyraethau i unigolion gan ystyried y dewisiadau lleiaf cyfyngol sydd ar gael bob amser, defnyddio arfer orau, gan gynnwys unrhyw drefniadau ôl-ofal. Darparu gwasanaeth GIMPC, a lle bo angen, darparu cyngor a chymorth iechyd meddwl arbenigol i ystod o wasanaethau eraill, gan gynnwys ymhlith eraill, y Tîm Triniaeth Gartref, Seiciatreg Gyswllt a gwasanaethau eraill y Cyngor ar hyd a lled yr Awdurdod.

Darparu safbwynt arbenigol GIMPC o fewn amgylchedd aml-broffesiwn, i fynd i'r afael ag anghenion oedolion neu blant lle mae pryderon iechyd meddwl, dan delerau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007) a deddfwriaeth berthnasol arall.

Sicrhau bod y gyfraith yn cael ei defnyddio'n gywir, ac ar brydiau, efallai y bydd angen gwrthod argymhelliad uwch weithwyr proffesiynol meddygol sy'n rhan o'r broses asesu dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Bod yn fodel rôl a rhannu arferion da, cyngor a chymorth i alluogi cydweithwyr, gweithwyr cymdeithasol newydd/myfyrwyr i ddysgu, datblygu a symud ymlaen â'u gyrfaoedd o fewn y fîm. Bydd hyn yn cynnwys goruchwyllo, asesu a mentora myfyrwyr gwaith cymdeithasol/gweithwyr cymdeithasol sy'n astudio cymwysterau cymdeithasol eraill, cydweithio ar achosion a chefnogi proses sicrhau ansawdd y gwasanaeth drwy archwilio a chymryd samplau o ffeiliau ac arferion.

### Adnoddau / Offer / Deunyddiau

Amherthnasol

### Goruchwyllo / Rheoli Pobl

Bod yn gyfrifol am oruchwyllo myfyrwyr GIMPC a GIMPC newydd gymhwysu, asesu eu gwaith a'u mentora i roi cefnogaeth iddynt a llywio eu hymarfer.

### Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Mae rôl y GIMPC yn rôl arbenigol gyda gwybodaeth benodol ac arbenigedd yn ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd), a Chodau Ymarfer cysylltiedig. Bydd gan ddeiliad y swydd o leiaf 4 mlynedd o brofiad ar ôl cymhwysu fel gweithiwr cymdeithasol a chymhwyster ôl-raddedig mewn iechyd meddwl er mwyn bodloni'r meini prawf i fod yn GIMPC.

### Cymwysterau gofynnol:

Gwaith Cymdeithasol - BA (Anrh) / Diploma Gwaith Cymdeithasol

Iechyd Meddwl - Diploma Ôl-raddedig mewn iechyd meddwl / neu gymhwyster cyfwerth

Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel 'Gweithiwr Cymdeithasol' ac wedi ail-gofrestru bob tair blynedd.

Cydymffurfiaeth â'r canllawiau statudol ar gyfer ail-gymeradwyaeth y rôl GIMPC gan arddangos hyfforddiant, datblygiad a myfyrdod parhaus (gweler gweithdrefn ail-gymeradwyo GIMPC CSDd)

Bydd y wybodaeth arbenigol o ran y rôl GIMPC a'r hyfforddiant sy'n greiddiol i'r rôl yn ymofyn i'r GIMPC ddarparu cefnogaeth a chymorth proffesiynol i weithwyr proffesiynol eraill. Gall hyn fod mewn cysylltiad â defnyddio Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd), asesu a rheoli risg, a natur a dealltwriaeth o anhwylderau meddyliol, neu gyfuniad o'r ffactorau hyn.

Bydd y GIMPC yn ymgymryd â'u dyletswyddau fel gweithiwr proffesiynol annibynnol gan roi dyfarniadau mewn perthynas â phenderfyniadau a chyflwyno tystiolaeth i sicrhau atebolrwydd.

Cyfrifol am gynnal cymhwysedd proffesiynol drwy hyfforddiant, ymchwil a myfyrdod.

Gallu gweithio mewn meysydd o gymhlethdod, ansicrwydd a risg.

Gwybodaeth ymarferol arbenigol am y modelau gwahanol o anhwylderau meddyliol a thriniaethau.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o weithdrefnau diogelu oedolion a phlant.

Sgiliau asesu a rheoli risg; yn cynnwys y rhai'n ymwneud ag atal hunanladdiad.

Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol.

Gwybodaeth am ddeddfwriaeth, theori ac ymarfer gwaith cymdeithasol, yn cynnwys gweithdrefnau a pholisïau adrannol.

Gallu gwneud penderfyniadau am ddefnyddio pwerau gorfodol mewn modd sy'n gyfreithlon ac sy'n hyrwyddo awtonomiaeth yr unigolyn, gan hefyd ddiogelu'r unigolyn, ei deulu, ei ofalwyr a'r cyhoedd.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o weithdrefnau cyfreithiol perthnasol yn ogystal â'r cod ymarfer cysylltiedig.

## **Amodau Gwaith Arbennig**

Bydd gofyn teithio i gynnal asesiadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn y gymuned yn ogystal â lleoliadau sefydliadol.

Ymateb i geisiadau brys am asesiadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, yn ystod y cyfnod rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Yn aml, bydd y gwaith o gynnal asesiad dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn parhau ar ôl 5pm a bydd disgwyliad i weithio y tu allan i oriau craidd mewn amgylchiadau o'r fath.

## Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff fynd drwy ein gwiriadau recriwtio mwy diogel; clirio DBS, 2 eirida boddhaol yn cwmpasu 3 blynedd o gyflogaeth, tystiolaeth o gymwysterau hanfodol, tystiolaeth o'r Hawl i Weithio yn y DU, tystiolaeth o gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod ei rwymedigaethau i ddiogelu plant ac atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl, gan wneud popeth o fewn ei allu i atal caethwasiaeth a masnachu mewn pobl o fewn ei fusnesau. Mae sawl math o gaethwasiaeth modern, gan gynnwys masnachu mewn pobl, llafur gorfodol, caethiwed a chaethwasiaeth.

Mae diogelwch yn bwysig i bawb, ac mae gofyn i holl gyflogeion Sir Ddinbych weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Oedolion / Plant y Cyngor, mae dyletswydd arnynt i roi gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi yn ystod eu dyletswyddau a bod yn ymwybodol o arwyddion camfanteisio. Dylid codi unrhyw bryderon â'r Rheolwr Diogelu Penodedig er mwyn i'r Cyngor allu gweithredu pan gaiff camfanteisio ei adnabod.

## Gweledigaeth / Cyd-destun

Ein gweledigaeth yw cefnogi unigolion i gynnal neu adfer eu hannibyniaeth drwy ddarparu gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal sydd hefyd yn cynorthwyo unigolion a chymunedau i feithrin gwytnwch fel nad ydynt yn dibynnu ar wasanaethau gofal ffurfiol.

Mae elfen gofal cymdeithasol y gwasanaeth hefyd yn canolbwyntio ar ddarparu a chomisiynu gofal a gwasanaethau cynnal o safon uchel i'r rhai mwyaf anghenus ond mae hyn yn dal i gael ei wneud gyda ffocws ar yr egwyddorion o leihau ymyrraeth a gostwng dibyniaeth.

Cyflawnir y weledigaeth hon drwy weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol, iechyd, y 3ydd sector ac eraill i ddarparu gwasanaethau prif ffrwd a rhai wedi'u targedu sy'n hyrwyddo annibyniaeth a gwytnwch.

Cefnogir ein gweledigaeth gan ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Tai (Cymru) 2014.

Pan fo angen, disgwylir i ddeiliad y swydd roi cyngor a chefnogaeth iechyd meddwl arbenigol i ystod o wasanaethau eraill. Drwy arwain ar ymarfer da, byddant yn cyflawni safonau proffesiynol uchel mewn perthynas â'u gwaith.

Mae cyfrifoldeb ar GIMPC i gynnal y gyfraith (Deddf Iechyd Meddwl, Deddf Galluedd Meddyliol, Deddf Hawliau Dynol a deddfwriaeth arall a Chodau Ymarfer) wrth gynnal asesiadau dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod hawliau'r rhai sy'n cael eu hasesu'n cael eu gwarchod, a gallant ddarparu model amgen i fodel meddygol iechyd meddwl, a chyflwyno safbwynt cymdeithasol mwy cyflawn i'r broses.

Pwerau GIMPC:

- Gneud cais am dderbyniad gorfodol i ysbyty o dan Adran 2, Adran 3 neu Adran 4
- Gwneud cais am warcheidiaeth dan Adran 7

- Cydlynw i gludo'r claf i'r ysbyty neu i awdurdodi eraill i wneud hynny
- Mynd i mewn i safleoedd a'u harchwilio – ar wahân i ysbyty – lle nad yw rhywun yn cael gofal cywir
- Gwneud cais am warant i chwilio am gleifion neu bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain ac sydd angen gofal dan Adran 135(1) a'u symud i gael y gofal hwnnw
- Symud a dychwelyd cleifion yn y DU neu gymryd neu ail-gymryd cleifion a gedwir sy'n absennol heb ganiatâd (Adran 18 ac Adran 138)

#### Dyletswyddau GIMPC:

- Cyfweld y claf "mewn modd addas" (Adran 13(2)).
- Ymateb i gais gan Berthynas Agosaf i asesu rhywun dan y Ddeddf Iechyd Meddwl (Adran 13(4)).
- Ymgynghori â Pherthynas Agosaf y claf wrth ystyried mesurau Adran 3 (neu warcheidiaeth).
- Rhoi gwybod i Berthynas Agosaf y claf pan mae'n cael ei gadw dan Adran 2
- Dyletswydd i gyfweld unigolyn a/neu ei symud i "fan diogel" gan yr heddlu o dan Adran 136.
- Ystyried cais i glaf gael ei wneud yn destun triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth o dan Adran 17A.
- Ystyried cais a wneir gan seiciatrydd ynghylch a yw'n cytuno i glaf gael ei roi ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol (Adran 3 yn y gymuned) heb i'r GIMPC gytuno na ellir rhoi'r claf ar Orchymyn Triniaeth Gymunedol.

## CYNGOR SIR DDINBYCH MANYLION AM YR UNIGOLYN

Mae'r Manylion yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweild am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Gweithiwr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy</b>		
<b>Gwasanaeth:</b>	<b>Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd</b>		
<b>Graddfa:</b>	<b>12</b>		
<b><u>MEINI PRAWF</u></b>	<b><u>HANFODOL</u></b>	<b><u>DYMUNOL</u></b>	<b><u>DULL ASESU</u></b> Ffurflen Gais / Cyfweiliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati
<b>1. ADDYSG A CHYMWYSTERAU</b>	<p>Cymhwyster Gwaith Cymdeithasol h.y. Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster blaenorol fel DipSW.</p> <p>Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru fel 'Gweithwyr Cymdeithasol'</p> <p>Cymhwyster ôl-raddedig mewn Iechyd Meddwl (Cymhwyster GIMPC)</p>	<p>Cymhwyster Asesydd Budd Pennaf</p> <p>Dyfarniad Addysgwr Ymarfer a phrofiad o asesu myfyrwyr.</p> <p>Cymhwyster Hyfforddi /Mentora</p>	<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweiliad</p> <p>Tystysgrifau</p>
<b>2. PROFIAD PERTHNASOL</b>	<p>O leiaf 4 blynedd o brofiad gwaith cymdeithasol ar ôl cymhwyso</p> <p>Yn gallu dangos eich bod yn gweithio tuag at safon alwedigaethol genedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a Chod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.</p> <p>Profiad o weithio mewn lleoliad aml-ddisgyblaethol, aml-</p>		<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweiliad</p> <p>Geirdaon</p>

	<p>asiantaeth a datblygu perthnasoedd effeithiol.</p> <p>Profiad a thystiolaeth o weithio gydag achosion cymhleth a defnyddio gweithdrefnau Diogelu</p> <p>Profiad o weithio fel GIMPC.</p> <p>Profiad o asesu anghenion cymhleth unigolion a'u gofalwyr mewn modd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau'r person a bydd pecynnau gofal yn cael eu trafod, eu monitro a'u hadolygu.</p>		
<p><b>3. GWYBODAETH A SGILIAU CYSYLLTIEDIG Â'R SWYDD</b></p>	<p>Gwybodaeth fanwl am ddeddfwriaeth berthnasol, cynlluniau Llywodraeth a'r goblygiadau yn arbennig Deddf Iechyd Meddwl 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007), Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005</p> <p>Dealltwriaeth o anhwylderau meddwl a gallu mynd i'r afael â phroblemau sy'n deillio o hynny gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a theuluoedd.</p> <p>Defnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y rôl GIMPC i gefnogi penderfyniadau priodol yn nhrefnadau'r Tîm Aml Ddisgyblaeth.</p> <p>Gwybodaeth am werthoedd gwaith cymdeithasol a gallu eu harddangos</p>		<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirdaon</p>



	<p>Sgiliau ardderchog mewn cyfathrebu'n ysgrifenedig a chofnodi a gallu creu adroddiadau clir, cryno a phrydlon.</p> <p>Sgiliau gweinyddol effeithlon ac yn gyfarwydd â Thechnoleg Gwybodaeth a Systemau Gwybodaeth</p> <p>Gallu myfyrio ar eich arfer eich hun a'i werthuso a chyflwyno newidiadau</p> <p>Gallu gweithio o fewn terfynau a gytunir arnynt.</p> <p>Tystiolaeth o ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus</p> <p>Tystiolaeth fod egwyddorion, codau a gwerthoedd proffesiynol Gwaith Cymdeithasol yn sail i waith mewn perthynas ag ymarfer gwrth-wahaniaethol a chynhwysol, ac mae datblygiad proffesiynol y fîm yn cael ei wella drwy gyfrannu at y broses hon.</p> <p>Mae safonau ymarfer a pherfformiad yn cael eu gweithredu a'u cyflawni'n gyson.</p> <p>Mae'r gallu i sicrhau bod risgiau i unigolion ac eraill yn cael eu hasesu a'u cydbwyso mewn ffordd sy'n hyrwyddo grymuso, hunan-benderfyniad, annibyniaeth a dewis i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofawr yn hanfodol.</p> <p>Gallu archwilio a gweithredu datrysiadau</p>		
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

	<p>creadigol i gyflawni canlyniadau</p> <p>Sgiliau ymchwil y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r gwasanaeth.</p>		
<p><b>4. NODWEDDION PERSONOL</b></p>	<p>Gallu deall a gweithio o fewn polisiau trefniadol i ddiwallu anghenion gwahanol defnyddwyr gwasanaeth a staff.</p> <p>Gallu gweithio ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.</p> <p>Gallu gweithio'n effeithiol mewn fîm, gan ddarparu cefnogaeth a mentora i'r cyhoedd ar lefel ymarferol ac emosïynol lle bo angen.</p> <p>Brwdfrydedd, hunan-gymhelliant a sgiliau dylanwadu.</p> <p>Gallu gwerthuso eich arfer eich hun ac eraill a chyflwyno newidiadau.</p> <p>Sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau rhagorol ac arddull hwylusol i sicrhau dealltwriaeth a chynnydd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, staff cymorth a chydweithwyr llai profiadol.</p> <p>Gallu Cadeirio cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol yn effeithiol.</p> <p>Gwydnwch mewn amgylchedd llawn pwysau. Gallu cefnogi</p>		<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirdaon</p>

	<p>eraill yn gweithio mewn sefyllfaoedd heriol.</p> <p>Yn esiampl i eraill, ymarfer proffesiynol, ymddygiad a dysgu rhagorol</p> <p>Gallu dylanwadu ac addasu'n gadarnhaol i newid o fewn yr amgylchedd gwaith ac arferion a chefnogi eraill drwy newid.</p> <p>Parodrwydd i sicrhau arfer integredig drwy gefnogi'r strwythurau a'r prosesau sy'n newid i gyflawni gwaith aml-ddisgyblaethol.</p>		
<p><b>5. GOFYNION ERAILL</b></p>	<p>Dangos ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn yr amgylchedd gwaith.</p> <p>Sgiliau trefnu a rheoli amser rhagorol.</p> <p>Ymagwedd hyblyg a chadarnhaol tuag at ddyletswyddau, patrymau gwaith, lleoliadau ac oriau gan wneud defnydd llawn o dechnoleg fodern a systemau gwaith hyblyg gan annog yr un fath ymhlith eraill.</p> <p>Mae gallu teithio yn un o ofynion y swydd</p>	<p>Yn rhugl yn y Gymraeg</p>	<p>Ffurflen Gais Cyfweliad Geirdaon</p>

## DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL JOB DESCRIPTION

<b>Job Title:</b>	<b>Approved Mental Health Professional (AMHP)</b>
<b>Grade:</b>	<b>12</b>
<b>Service:</b>	<b>Adult Social Care and Homelessness Service</b>
<b>Service Area:</b>	<b>Mental Health</b>
<b>Responsible to:</b>	<b>Team Manager</b>
<b>Job ID Number / Date Issued:</b>	<b>04680 / January 2025</b>

### Job Purpose

The Approved Mental Health Professional (AMHP) is a role that is unique in UK Law in that it carries with it the authority to formally deprive an individual of their liberty (which accords with article 5 of the Human Rights Act) without the need for a court hearing. The Mental Health Act 1983 (MHA) lays down the legal framework in which people can be compulsorily admitted and detained in psychiatric hospitals, and the AMHP has a lead role to play as the primary decision maker when carrying out their duties.

The AMHP role is a complex one. It is also unique among the tasks of social workers and other mental health professionals in that the AMHP is acting as an autonomous professional when carrying out their duties on behalf of the Local Authority rather than an agent of their employer.

An AMHP cannot be instructed by a manager to formally detain an individual under the Mental Health Act. They can only be requested to consider a request for an assessment under the Mental Health Act and reach their own conclusion taking into account all the circumstances of the case.

The AMHP has advanced training in relation to mental health, and in particular the application of the Mental Health Act and the responsibilities arising from this. The AMHP role therefore provides a source of specialist knowledge to multi-disciplinary teams and professionals.

### Principal Accountabilities and Responsibilities

To undertake a statutory responsibility to consider all requests for a Mental Health Act (MHA) assessments and for co-ordinating the MHA assessment process; considering the need for admission and pursuing alternatives to the use of compulsion (i.e. least restrictive option) wherever possible.

To bring a social perspective to the Mental Health Act Assessment process, utilising high level of professional skills and knowledge to navigate contentious issues and including challenging Senior Health professionals and those who may be experts in their own field.

To work in partnership with a range of other professionals at senior and specialist levels, but reach an independent autonomous judgement as to whether the use of formal admission to hospital is necessary and appropriate.

When applicable, to hold responsibility for managing referrals in complex situations including children and adult safeguarding cases and assessing, planning, implementing and evaluating interventions for individuals always considering the least restrictive options available, utilising best practice, including any aftercare arrangements.

To provide an AMHP service, and when necessary, to provide expert mental health advice and support to a range of other services, including but not limited to the Home Treatment Team, Liaison Psychiatry and other council based services throughout the Authority.

To provide an AMHP expert perspective within a multi-professional environment, to address the needs of adults or children where there are mental health concerns, under the terms of the Social Services and Wellbeing Act 2014, the Mental Health Act 1983 (as amended by the Mental Health Act 2007) and other relevant legislation.

To ensure that the law is being applied correctly and on occasion, they may need to overrule the recommendation of Senior medical professionals directly involved in the MHA assessment process.

To be a role model and share good practice, advice and support to enable team colleagues, new social workers/ students to learn, develop and progress their careers within the team. This will include supervision, assessment and mentoring of social work students / social workers undertaking other social worker qualifications, co-working on cases and supporting the service's quality assurance by auditing and sampling of files and practice.

**Resources/Equipment/Material**

Not applicable

**Supervision/Management of People**

To be responsible for supervising AMHP students and newly qualified AMHPs, providing supervision, assessing their work including mentoring them to support and guide their practice.

**Knowledge, Skills, Training and Experience**

The AMHP role is a specialist role with specific knowledge and expertise relating to the Mental Health Act 1983 (as amended), and associated Codes of Practice. The post holder will have at least 4 years of post-qualifying experience as a social worker and have undertaken a post graduate qualification in mental health, meeting the criteria to practice as an AMHP.

**Required qualifications.**

Social work- BA (Hons) social work/ Dip SW

Mental health- Post graduate diploma in mental health/ or equivalent

Registered with Social Care Wales as a 'Social Worker' and re-register at three yearly intervals.

Comply with statutory guidelines for the reapproval of AMHP role demonstrating, ongoing training, development, and reflection (see DCC AMHP reapproval procedure)

The specialist Knowledge contained in the AMHP role and the training underpinning this, will require the AMHP to provide professional advice and support to other professionals. This may be in relation to the application of the mental health Act 1983 (as amended), the assessment and management of risk, and the nature and understanding of mental disorders, or a combination of all these factors.

The AMHP will undertake their duties as an independent professional exercising their judgement in relation to decision making and evidencing this to ensure accountability.

Be responsible for maintaining professional competence through training, research, and reflection.

Be able to work in areas of complexity, uncertainty, and risk.

Specialist working knowledge of the varying models of mental disorder and treatments,

Knowledge and understanding of adult and child safeguarding procedures.

Risk assessment and management skills; including those related to suicide prevention.

Good communication skills are essential.

Knowledge of legislation, social work theory and practice, including Departmental procedures and policies.

Ability to make decisions around the use of compulsory powers in a way that is both lawful and promotes the individual's autonomy, while safeguarding the individual, their families, carers and members of the public.

Knowledge and understanding of related procedures prescribed by law as well as the associated code of practice.

### **Special Working Conditions**

Requirement to travel to undertake MHA assessments in community as well as institutional settings.

Responding to urgent requests for MHA Assessments, from Monday to Friday covering the period from 9am to 5pm. The completion of a MHA assessment often continues after 5.00 pm and there will be an expectation to work outside core working hours in such instances.

## Employment Checks/ Specific Requirements

All new starters are required to undergo our standard safer recruitment checks; DBS clearance, 2satisfactory references covering 3 years employment, evidence of essential qualifications, evidence of Right to Work in the UK, evidence of registration with Social Care Wales.

Denbighshire County Council recognises its obligations to safeguard children and adults together with preventing slavery and human trafficking and will do all in its power to prevent slavery and human trafficking within its business. Modern slavery can take many forms including the traffickingof people, forced labour, servitude and slavery.

Safeguarding is everyone's business and all Denbighshire employees are required to work in accordance with the Council's Child / Adult Safeguarding policies and procedures and have a duty to report any concerns which may be noted during the course of their duties and are askedto be alert to the signs of exploitation. Concerns should be raised via their Designated Safeguarding Manager in order that the Council can take prompt action when exploitation is identified.

## Vision/Context

Our vision is to support individuals to maintain or recover their independence by providing early intervention and prevention services that also support the development of individuals' and communities' resilience and not reliance on formal care services.

The social care part of the service is also focused on providing and commissioning high quality care and support services for those in greatest need but this is still with a focus on the principles of least intervention and reducing dependence.

This vision is delivered through working in partnership with local communities, health, the 3rd sector and others to deliver both mainstream and targeted services that promote independence and resilience.

Our vision is supported by legislation contained in the Social Services and Well-being Act (Wales) 2014 and the Housing Act (Wales) 2014.

The post holder, will be expected when necessary, to provide expert mental health advice and support to a range of other services. Taking the lead on good practice, they will attain high professional standards in relation to their work.

AMHPS have the responsibility for upholding the law (Mental Health Act, Mental Health Capacity Act, Human Rights Act and other legislation and Codes of Practice) when conducting assessments under the Mental Health Act. They use this knowledge to ensure that the rights of those being assessed are protected, and can provide a counter to the medical model of mental health, introducing a more rounded social perspective to the process.

AMHP powers:

- To make an application for compulsory admission to hospital under Sec.2, Sec.3 or Sec.4
- To make an application for guardianship under Sec.7

- To coordinate the conveyance of the patient to hospital or to authorise others to do so
- To enter and inspect premises – other than a hospital – where someone is not receiving proper care
- To apply for a warrant to search for and remove patients or persons living alone in need of care under Sec.135(1)
- To remove and return patients within UK, or to take or re-take detained patients absent without leave (S.18 and S.138)

AMHP duties:

- To interview the patient "in a suitable manner" (Sec 13(2)).
- To respond to a request by a Nearest Relative to assess someone under the MHA (Sec.13(4))
- To consult the patient's Nearest Relative when considering a Sec.3 (or guardianship)
- To inform the patient's Nearest Relative when detaining under Sec.2
- To interview a person and or remove to a "place of safety" by police under S.136
- To consider an application for a patient to be made subject to Supervised Community treatment under Sec.17A
- To consider a request made by a Psychiatrist as to whether they agree for a patient to be placed on a Community Treatment Order (s3 in the community) without the AMHPS involvement and agreement then the patient cannot be placed on a CTO.



## DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL PERSON SPECIFICATION

The Person Specification sets out the skills, knowledge and experience that are considered to be necessary to carry out the duties of the post effectively. It will be used in the short-listing and interview process for this post. You should demonstrate on your application form how you meet these criteria as you will only be shortlisted if you meet all of the essential criteria (and desirable criteria where applicable).

<b>Post Title:</b>	<b>Approved Mental Health Practitioner (AMHP)</b>		
<b>Service</b>	<b>Adult Social Care and Homelessness Service</b>		
<b>Grade:</b>	<b>12</b>		
<u>CRITERIA</u>	<u>ESSENTIAL</u>	<u>DESIRABLE</u>	<u>METHOD OF ASSESSMENT</u> Application Form / Interview / Presentation / References etc
<b>1. EDUCATION &amp; QUALIFICATIONS</b>	<p>Qualification in Social Work i.e. Degree or Social Work predecessor e.g. DipSW</p> <p>Registration with Social Care Wales as a 'social worker'</p> <p>Post graduate qualification in Mental Health (AMHP Qualification)</p>	<p>Best Interest Assessor Qualification.</p> <p>Practice Educator Award &amp; experience of assessing students.</p> <p>Coaching/ Mentoring qualification</p>	<p>Application Form</p> <p>Interview</p> <p>Certificates</p>
<b>2. RELEVANT EXPERIENCE</b>	<p>A minimum of 4 years post qualifying experience in social work.</p> <p>Able to demonstrate working to national occupational standard for Social Work and the Care Council for Wales Code of Practice for Social Care Workers.</p> <p>Experience of working in a multi-disciplinary multi-agency setting and developing effective relationships.</p> <p>Experience and evidence of working with complex cases and using</p>	<p>Experience of working in a statutory agency is desirable.</p> <p>Experience of working across a range of client groups / specialties.</p>	<p>Application Form</p> <p>Interview</p>

	<p>Safeguarding procedures.</p> <p>Experience of working as an AMHP.</p> <p>Experience of assessing the complex needs of individuals and their carers in a person centred outcome focussed way and packages of care negotiated, monitored and reviewed.</p>		
<p><b>3. JOB RELATED KNOWLEDGE &amp; SKILLS</b></p>	<p>Detailed knowledge of relevant legislation, Government initiatives and their implications especially the Mental Health Act 1983 (as amended by the MHA 2007), Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 and the Mental Capacity Act 2005</p> <p>Knowledge and understanding of mental disorder and the ability to address the issues it raises with service users, carers and families.</p> <p>Utilize the specialist knowledge and expertise of the AMHP role to support appropriate decision making in MDT discussions.</p> <p>Knowledge and demonstration of the values of social work</p> <p>Excellent written communication and recording skills and ability to produce clear, concise and timely reports.</p> <p>Efficient administrative skills and familiarity with</p>		<p>Application Form</p> <p>Interview</p>

	<p>Information Technology and Information Systems.</p> <p>The ability to actively reflect and evaluate own practice and implement changes</p> <p>The ability to work within agreed boundaries.</p> <p>Evidence of commitment to continued professional development.</p> <p>Evidence that professional principles, codes and values of Social work are underpinning work in relation to anti discriminatory and inclusive practice, and team professional development is enhanced by contributing to this process.</p> <p>Practice and performance standards are consistently applied and achieved.</p> <p>Ability to ensure risks to individuals and others are assessed and balanced in a way that promotes empowerment, self-determination, independence and choice for service users and their carers is essential.</p> <p>The ability to explore and apply creative solutions to achieving outcomes</p> <p>To have research skills which can be utilised in service development</p>		
--	-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	--

<p><b>4. PERSONAL QUALITIES</b></p>	<p>Ability to comprehend and work within Organisational policies to meet the differing needs of service users and staff.</p> <p>Ability to work collaboratively with service users, cares and other professionals</p> <p>Effective team player, providing support and mentorship to peers on a practical and emotional level when necessary.</p> <p>Enthusiasm, self-motivation and ability to influence.</p> <p>The ability to evaluate own and others' practice and implement changes.</p> <p>Excellent verbal and non-verbal communication skills and a facilitative style to ensure understanding and progress for service users, support staff and less experienced colleagues.</p> <p>Ability to effectively Chair multidisciplinary meetings</p> <p>Resilience in a pressurised environment. The ability to support others working in stressful situations.</p> <p>Role model, excellent professional practice, conduct and learning</p> <p>The ability to influence and adapt positively to change within the working environment and practices and to</p>		<p>Application Form</p> <p>Interview</p>
-------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	--	------------------------------------------

	<p>support others through that change.</p> <p>Willingness to ensure integrated practice by supporting the changing structures and processes to achieve multi-disciplinary working.</p>		
<p><b>5. OTHER REQUIREMENTS</b></p>	<p>To demonstrate awareness of the Welsh Language and culture within the working environment.</p> <p>Excellent time management and organisational skills.</p> <p>A flexible and positive approach to duties, working patterns, locations and hours making full use of modern technology and flexible working systems and encourages the same in others.</p> <p>The ability to travel is a requirement of the post</p>	<p>Ability to communicate through the medium of Welsh.</p>	